# Y Pwyllgor Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd Llawr, Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 20 Tachwedd 2012** |
| Amser: | **08:30 - 08:55** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion:

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | **Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Jocelyn Davies**<br>**William Graham**<br>**Jane Hutt**<br>**Aled Roberts** |
| Staff y Pwyllgor: | **Anna Daniel (Clerc)** |
| Eraill yn bresennol: | **David Melding, Y Dirprwy Llywydd**<br>**Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad**<br>**Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Deddfwriaeth**<br>**Virginia Hawkins, Pennaeth Pwyllgorau Cynulliad dros dro**<br>**Craig Stephenson, Prif Ysgrifennydd Preifat y Llywydd**<br>**Peter Greening, Llywodraeth Cymru** |

## 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

## 2. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol

Nodwyd y cofnodion gan y Pwyllgor i'w cyhoeddi.

## 3. Trefn Busnes

3(i) Busnes yr wythnos hon

Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai'r Cyfnod Pleidleisio'n cael ei gynnal cyn y Ddadl Fer ddydd Mawrth a dydd Mercher.

3(ii) Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

3(iii) Amserlen busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i roi lle yn yr amserlen i'r eitem a ganlyn:

**Dydd Mercher 28 Tachwedd 2012**

- Cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 6 mewn perthynas â Chadeirydd Dros Dro yn y Cyfarfod Llawn (5 munud)

Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

3(iv) Dadl gan Aelod Unigol: Dewis cynnig i'w drafod

Dewisodd y Pwyllgor Busnes y cynnig a ganlyn ar gyfer dadl:

**Dydd Mercher 28 Tachwedd 2012**

**NNDM5096**

**Ken Skates (De Clwyd)**
**Eluned Parrott (Canol De Cymru)**
**David Melding (Canol De Cymru)**
**Llyr Huws Gruffydd (Gogledd Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod ac yn gresynu bod pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl yn dioddef stigma a gwahaniaethu;

2. Yn croesawu Amser i Newid Cymru, sef yr ymgyrch genedlaethol gyntaf i roi terfyn ar y stigma a'r gwahaniaethu y mae pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl yng Nghymru yn eu hwynebu;

3. Yn nodi'r gwaith ymchwil a gynhaliwyd yn ddiweddar gan Amser i Newid Cymru, a oedd yn dangos bod:

a) un ym mhob pedwar yn credu na ddylid caniatáu i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl fod mewn swydd gyhoeddus; a

b) un ym mhob 10 yn credu na ddylid caniatáu i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl gael plant;

4. Yn cydnabod bod pobl sydd â materion iechyd meddwl yn chwarae rhan sylweddol mewn cymdeithas, yn gweithio ar draws ystod o sectorau ac yn gwneud cyfraniadau pwysig at yr economi; a

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gefnogi'r ymgyrch Amser i Newid Cymru a dangos ymrwymiad i roi terfyn ar y stigma a'r gwahaniaethu sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gynnal y ddadl nesaf gan Aelod unigol ddydd Mercher 30 Ionawr 2013.

## 4. Cyfarfod Llawn

4(i) Cwestiynau Llafar y Cynulliad

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ymgynghori â'u grwpiau ynghylch y dewis gorau o ran y dewisiadau i adolygu Cwestiynau'r Cynulliad, gyda'r bwriad o'i drafod ymhellach yn ystod cyfarfod y Pwyllgor Busnes ar 4 Rhagfyr 2012.

## 5. Pwyllgorau

5(i) Y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd: Cais i ymweld ag Iwerddon

Cytunodd y Pwyllgor Busnes â chais gan y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd i ymweld ag Iwerddon ar 5-6 Rhagfyr 2012, ar yr amod y byddai Aelodau ar gael ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor a'r Cyfarfod Llawn ar 5 Rhagfyr.

## 6. Deddfwriaeth

6(i) Y Bil Trawsblannu Dynol (Cymru)

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio'r Bil Trawsblannu Dynol (Cymru) i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i'w ystyried. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid cyflwyno adroddiad ar egwyddorion cyffredinol y Bil erbyn 22 Mawrth 2013. Ar yr amod bod y Bil yn cael ei gytuno arno yng Nghyfnod 1, cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid cwblhau trafodion Cyfnod 2 erbyn 7 Mehefin 2013.

6(ii) Gorchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2012

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gyfeirio'r Gorchymyn yn ffurfiol i'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd i'w ystyried, a nododd y byddai'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn cyflwyno adroddiad cyn pen 30 diwrnod i'r dyddiad y cafodd y Gorchymyn ei osod.

## 7. Rheolau Sefydlog

7(i) Cadeirydd Dros Dro yn y Cyfarfod Llawn: Adroddiad Drafft

Ystyriodd y Pwyllgor Busnes adroddiad drafft ar ddiwygio Rheol Sefydlog 6 mewn perthynas â Chadeirydd Dros Dro yn y Cyfarfod Llawn, a chymeradwyodd yr adroddiad. Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gyflwyno cynnig i ddiwygio'r Rheol Sefydlog i'r Cynulliad ei ystyried ddydd Mercher 28 Tachwedd 2012.